**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20fed Medi 2010**

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR AMCANION GWELLA A LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD AR GYFER 2011-12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar amcanion gwella a lleihau risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2011-12.

2 Ymofyn ar i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2009-12.

## Cefndir

3 Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-11 yn gofyn ar i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru baratoi, ymgynghori'n gyhoeddus a chyhoeddi, am bob blwyddyn ariannol, eu Cynllun Lleihau Risg/cynllun gweithredu blynyddol, a hynny erbyn 31 Hydref.

4 Ym mis Mehefin 2010 cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol arweiniad i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru ar gydymffurfio gyda Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol 2009. Mae'r arweiniad yn ail drafod y gofynion ar yr Awdurdod Tân ac Achub i ymgynghori ar y trefniadau y mae'n cynnig eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliant parhaus a gosod yr amcanion gwella y mae'n anelu at eu cyflawni.

5 Mae'r arweiniad hwn yn galluogi Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i gyfuno proses gynllunio, ymgynghori a chynllunio'r Cynllun Lleihau Risg a'r gofynion dan Adran 1 y mesur i ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynllun gwella. Dylid cyhoeddi'r cynllun gwella/gweithredu a lleihau risg ar y cyd erbyn 31 Hydref.

## Cyflwyniad

6 Yn ystod y cyfarfod Awdurdod ar 21 Mehefin 2010:

(i) cefnogodd yr Aelodau'r cynnig i gyhoeddi'r Cynllun drafft Gwella a Lleihau Risg ar wefan yr Awdurdod yn ystod cyfnod ymgynghorol 2010 fel y gellir cyfeirio at y gwaith sy'n mynd rhagddo; a
(ii) chymeradwywyd cynnwys y ddogfen ymgynghorol gysylltiedig i'w gyhoeddi a'i ddosbarthu.

7 Yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd, caniatawyd cyfnod o 12 wythnos i ymgynghori a chafwyd ymateb hyd at ac ar y dyddiad cau, sef 10 Medi 2010.

## Gwybodaeth

8 Cyhoeddwyd a dosbarthwyd 3,500 copi o'r ddogfen ymgynghorol 'Dweud Eich Dweud', anfonwyd e-byst yn hysbysu pobl fod y ddogfen hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod ar ffurf electronig.

9 Cysylltwyd â nifer eang o unigolion a sefydliadau gan gynnwys; Cynghorau Tref a Chymuned, cynghorwyr sir, Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau o Senedd Ewrop, cymdeithasau tai, sefydliadau'r sector wirfoddol, Awdurdodau Tân ac Achub eraill, cwmnïau yswiriant a broceriaid, gweithwyr detholedig y System Ddyletswydd Rhan Amser ac ystod eang o sefydliadau y gallai fod ganddynt ddiddordeb ym mhynciau penodol y Cynllun Lleihau Risg eleni.

10 Derbyniodd holl aelodau'r Awdurdod a'r holl weithwyr gopi personol.

11 Anfonwyd copïau o'r ddogfen i lyfrgelloedd ledled Gogledd Cymru, a fe'i dosbarthwyd i aelodau'r cyhoedd yn Sioeau Môn, Meirionnydd a Dinbych a Fflint.

12 Cyhoeddodd yr adran Cyfathrebiadau Corfforaethol ddatganiad i'r wasg, ac fe anfonodd y Cadeirydd lythyr a oedd yn egluro'r broses ac yn annog pobl i gymryd rhan gyda phob un o'r dogfennau a anfonwyd drwy'r post.

13 Roedd modd i bobl sydd gan anawsterau darllen wrando ar y ddogfen ymgynghorol a'r cynllun drafft gyda meddalwedd 'ReaderSperaker' a oedd ar gael ar wefan yr Awdurdod. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael drwy safle Gweplyfr (Facebook) y Gwasanaeth.

14 Derbyniwyd ymatebion drwy'r holiadur a ddarparwyd, llythyr, e-bost, ac yn electronig drwy'r ddolen ar wefan yr Awdurdod.

15 Derbyniwyd cyfanswm o 22 ymatebiad ysgrifenedig:

- daeth 21 o Ogledd Cymru (pob sir ar wahân i Ynys Môn)
- derbyniwyd 16 drwy'r post/â llaw, a'r gweddill drwy e-bost neu thrwy'r wefan.
- dywedodd 9 o'r bobl a ymatebodd eu bod yn cael eu cyflogi neu yn perthyn i rywun a oedd yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth (dywedodd 8 o bobl nad oeddent yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth, a ni atebodd 5 o bobl y cwestiwn). Ni chafwyd ymateb gan gyrff cynrychiadol.

16 Mae pob ymateb wedi ei ddarllen a'i ddadansoddi - darperir crynodeb yn atodiad 1.

17 Roedd mwyafrif yr ymatebiadau a dderbyniwyd eleni yn cefnogi'r amcanion gwella arfaethedig a'r trefniadau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliant parhaus.

18 Roedd rhai o'r ymatebion yn gofyn am eglurhad a gloywi pellach ar y cynigion, tra'r oedd eraill yn cynnig awgrymiadau ar gyfer mesurau ychwanegol neu amgen.

19 Doedd neb yn anghytuno'n uniongyrchol â chynigion yr Awdurdod, ond mynegodd rhai eu barn ar yr hyn fyddai'n cael blaenoriaeth petai'r gyllideb yn dynn.

**Argymhellion**

20 Y dylai'r Aelodau

(i) nodi'r ymatebion a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad a'r amcanion drafft; a
(ii) gan ystyried yr ymatebiadau a dderbyniwyd, argymell y dylai'r Awdurdod Tân, yn ystod eu cyfarfod nesaf, selio'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg Ar y Cyd 2011-12 ar yr amcanion gwella a lleihau risg arfaethedig.

| Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl bod yr Awdurdod yn iawn i fod yn hyderus yn ei allu i barhau i wella'r hyn y mae'n ei wneud? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 13 |
| Nac ydw | 4 |
| Heb ateb | 5 |

| Sylwadau ychwanegol: |
|---|
| 1. Y farn y bydd y cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud yn anodd i gyflawni'r amcanion, a'r gred fod yr Awdurdod yn bwriadu cyflogi Diffoddwyr Tân ar y System Ddyletswydd Rhan Amser yn unig. |
| 2. Y farn y bydd y cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd os nad amhosib i gyflawni'r gwelliannau. Pryder y byddai'n rhaid i'r gwasanaeth gwtogi yn hytrach na gwella. |
| 3. Pryder am y toriadau i'r gyllideb. |
| 4. Cytuno y byddai'r amcanion a nodir yn arwain at welliannau. |
| 5. Y farn fod y bwriad i wella yn 'orhyderus', a beio hyn ar 'farn chwyddedig' yr uwch reolwyr 'mai hwy sydd wybod orau'. Cwyno fod yr amcanion hyn yn cael eu gwneud eisoes, nad oes eglurhad ar yr hyn fydd yn cael ei wneud yn wahanol neu wella. Cwyno nad yw'r wybodaeth yn ddigonol i allu mynegi barn. |
| 6. Cydnabod pwysigrwydd ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau brys. Eisiau gwybod pa effaith y caiff y cynlluniau manwl i adlinio adnoddau er mwyn llwyddo i ddarparu 'ymateb cyflym a hyd yn oed mwy effeithiol' ar eu gorsaf 24awr lleol hwy a'r ardaloedd cyfagos. |
| 7. Dymuno atgoffa fod yr Awdurdod angen 'gwneud i'r gweithlu deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'. |

| Cwestiwn 2a: Ydych chi'n cytuno gydag Amcan Gwella 1 - atal marwolaethau ac anafiadau mewn adeiladau lle mae pobl yn byw? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 17 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 5 |

| Cwestiwn 2b: Ydych chi'n cytuno gyda'n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni'r amcan gwella hwn? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 14 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 8 |

| Sylwadau Ychwanegol |
|---|
| 1. Pryder am eiddo Gwelyau a Brecwast hŷn o ganlyniad i ddisodli'r hen gyfundrefn. |
| 2. Y farn y dylid rhoi blaenoriaeth i ymateb brys effeithlon os bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau oherwydd cyfyngiadau ariannol. |
| 3. Y farn na ddylid cyfyngu hyn i danau damweiniol yn unig. |
| 4. Cwyn am wybodaeth annigonol. |
| 5. Y farn na fyddai hyn yn adlewyrchu gwellhad, dim ond parhad o'r rhaglen ataliol gyfredol. Awgrymu cynnwys diffiniad o'r bobl a ystyrir yn fregus neu dan anfantais. Awgrymu sefydlu cytundebau gyda nifer o asiantaethau a sefydliadau allweddol i rannu gwybodaeth â hwy fel y gellir diogelu'r rhai a ystyrir yn fregus. |
| 6. Y farn y dylid sicrhau fod nifer digonol o weithwyr ar gael i ateb galwadau am gymorth gan fod y manylion a gofnodir yn ystod y cyfnod yma yn hanfodol ac yn effeithio ar yr adnoddau a anfonir. |
| 7. Y farn fod angen rhoi ystyriaeth i anghenion pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol ac y gall digwyddiadau homoffobig a deuffobig arwain at danau bwriadol gyda'r digwyddiadau hyn yn effeithio'n wahanol ar bobl lesbiaid, hoyw, neu ddeurywiol nac y byddant ar bobl eraill. Awgrymu ffordd amlasiantaethol o adnabod tai sydd mewn perygl mawr o ddigwyddiadau o'r fath, a phwysleisio'r angen i hyfforddi gweithwyr sydd yn delio gyda digwyddiadau sensitif o'r fath. |

| |
|---|
| Cwestiwn 3a: Ydych chi’n cytuno gydag Amcan Gwella 2 - sicrhau bod eiddo annomestig yn ddiogel i ymweld â nhw ac i weithio ynddynt? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 1 |
| Heb ateb | 5 |

| |
|---|
| Cwestiwn 3b: Ydych chi’n cytuno gyda’n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni’r Amcan Gwella 2? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 6 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Cwestiynau am sut y caiff gwybodaeth leol ei ddefnyddio, nodi a sut y byddwn yn meddu arno. |
| 2. Y farn y dylid rhoi blaenoriaeth i ymateb brys effeithlon os bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau oherwydd cyfyngiadau ariannol. |
| 3. Nodi y byddai’n help i’r criwiau gael gwybod ymlaen llaw pa ddefnyddiau sydd yn yr eiddo er mwyn eu cynorthwyo i ddewis y defnyddiau gorau ar gyfer diffodd y tân (dŵr, ewyn, $CO_2$, a.y.b.). |
| 4. Diffyg gwybodaeth am ba dechnoleg gyfrifiadurol arbenigol fyddai’n cael ei defnyddio. |
| 5. Cefnogi rhaglen darged cyfredol y Gwasanaeth ar archwilio eiddo annomestig, a chymeradwyo’r Awdurdod ar ei gwaith. |
| 6. Cytuno fod ymateb cyflym yn hanfodol, ac eisiau gwybod sut y byddwn yn cyflawni a mesur y gwelliannau arfaethedig, ar y sail bod y Gwasanaeth eisoes yn ymateb yn gyflym ac effeithlon. |
| 7. Atgoffa fod angen i weithwyr fod yn ymwybodol o beryglon, a bod angen eu hyfforddi’n briodol cyn iddynt ddechrau yn y swydd. |

| Cwestiwn 4a: A ydych chi'n cytuno gydag Amcan gwella 3 - lleihau'r risg o ddigwyddiadau nad ydynt yn danau? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 1 |
| Heb ateb | 5 |

| Cwestiwn 4b: Ydych chi'n cytuno gyda'n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni'r amcan gwella 3? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 6 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Dymuno gwybod pa gamau fyddai'n cael eu cymryd petai offer / peiriannau yn cael eu lleoli yn y man anghywir. |
| 2. Y farn bod hyn yn hynod bwysig gan fod mwy o bobl yn marw mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd na mewn tanau, a bod y newidiadau yn yr hinsawdd yn cyfrannu at fwy o lifogydd difrifol. |
| 3. Y farn fod hyn yn lled gyffredinol. Ailadrodd y byddai data o ddefnyddiau / cemegau sydd yn yr eiddo yn ddefnyddiol i'r Gwasanaeth. Un yn sylwebu fod angen gosod arwydd os yw cerbyd yn cario cargo peryglus . Cefnogi'r ymchwil i beryglon defnyddiau peryglus a sut i leddfu'r drwg effeithiau. |
| 4. Y farn nad yw'n bosib cynnig sylwadau adeiladol gan nad yw'r ddogfen yn darparu gwybodaeth ddigonol i egluro beth yw rheolaeth effeithiol, prosesau technegol a systemau cyfathrebu. Nid oes manylion ar hyfforddiant, gwybodaeth nac offer ar gael ychwaith. |
| 5. Cynnig targedau ar sail gwybodaeth. Hyn wedi bod yn hynod effeithiol i wasanaethau eraill megis yr RAC, AA a'r gwasanaeth ambiwlans. Ardystio'r camau a gymerir i wella ac ehangu gwybodaeth bas data electronig y Gwasanaeth. |
| 6. Mynegi pryder fod nifer y damweiniau ffyrdd yn eu hardal hwy yn cynyddu, a byddant yn croesawu gwaith ataliol (unigol neu ar y cyd) ynghyd â'r ymateb cyflym. |
| 7. Pryder fod anawsterau wrth sicrhau fod pobl wedi eu hyfforddi'n ddigonol i ymdrin â nifer eang o ddigwyddiadau posib, a dymuno gweld ymroddiad yn y maes yma. |
| 8. Dymuno gweld fod gweithwyr wedi eu hyfforddi'n ddigonol yn y maes anodd hwn. |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 5a: Ydych chi’n cytuno gydag Amcan Gwella 4 - mynd i’r afael â phroblem llosgi bwriadol? | |

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 1 |
| Heb ateb | 5 |

| |
|---|
| Cwestiwn 5b: Ydych chi’n cytuno gyda’n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni Amcan 4? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 6 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Ddim yn dymuno gweld toriadau yng nghyllideb y gwasanaethau rheng flaen i gyflawni’r amcan hwn. |
| 2. Y farn y dylid gorfodi pobl sydd yn cynnau tanau’n fwriadol dacluso man y tân a’u hanfon ar gwrs hyfforddi. |
| 3. Cwestiynu sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni os caiff ‘y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol ei ddiddymu’. Y farn fod prosiectau megis Y Ffenics ac Ymddiriedolaeth y Tywysog yn gostus ac aneffeithiol. |
| 4. Cefnogi’r gwaith blaengar sydd eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes yma a chefnogi parhad. Ailadrodd diddordeb mewn dysgu sut y mae’r Awdurdod yn bwriadu mesur eu llwyddiant. |
| 5. Pryder ynghylch y ffaith fod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a phobl heterorywiol y tybir eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, yn benodol yn agored i niwed ac yn fwy tebygol o ddioddef tanau bwriadol. Dymuno gweld yr awdurdod yn sicrhau fod troseddau casineb a homoffobig / deuffobig yn cael eu nodi’n gywir fel y gellid adnabod a lleihau nifer y cartrefi dan fygythiad. |

| Cwestiwn 6a: A ydych chi’n cytuno gydag Amcan Gwella 5 -datblygiad cynaliadwy? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 17 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 5 |

| Cwestiwn 6b: Ydych chi’n cytuno gyda’n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni Amcan Gwella 5? |
|---|

| | |
|---|---|
| Ydw | 14 |
| Nac ydw | 1 |
| Heb ateb | 7 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Annog yr Awdurdod i gysylltu gyda’r gymuned leol yn amlach a mynd i’r afael â materion cymdeithasol yn gynnar. Awgrymu cydweithio gyda swyddogion y cyngor er mwyn dod yn gyfarwydd ag ardaloedd sydd yn debygol o fod mewn perygl. |
| 2. Y farn na ddylid ailgyfeirio’r arian o wasanaethau craidd i gwrdd â’r amcan yma - angen gohirio os mai dyma fel y mae. |
| 3. Y farn fod y datganiad yn un generig, ac awgrymu y dylid cynnwys datganiadau penodol megis ystyried faint o danwydd y mae’r cerbydau a brynir yn eu defnyddio, mynd i’r afael â’r effaith y mae’r cemegau diffodd tân yn eu cael ar yr amgylchedd, defnyddio data i benderfynu ar leoliad gorau’r gorsafoedd tân, cerbydau ayyb. |
| 4. Anfodlon gyda lefel y manylder a ddarparwyd mewn perthnasedd â’r cynllun gweithredu a gytunwyd a phwy gytunodd ar y cynllun. |
| 5. Cefnogi ffocws yr Awdurdod ar y newidiadau er lles yr amgylchedd. |
| 6. Y farn fod cymunedau cynaliadwy yn cynnwys ac yn diogelu pawb, heb ragfarnu na gwahaniaethu. |

| |
|---|
| Cwestiwn 7a: Ydych chi'n cytuno gydag Amcan Gwella 6 - Cynllun Cydraddoldeb Sengl? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 14 |
| Nac ydw | 3 |
| Heb ateb | 5 |

| |
|---|
| Cwestiwn7b: Ydych chi'n cytuno gyda'n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni Amcan 6? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 12 |
| Nac ydw | 3 |
| Heb ateb | 7 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Tynnu sylw at y ffaith fod y Gwasanaeth eisoes wedi cytuno ar werthoedd craidd a chwestiynu a oes angen gwastraffu mwy o arian yn llunio polisi cynhwysiant newydd pan fyddai addasu'r gwerthoedd craidd yn ddigonol. |
| 2. Cwestiynu pa un ai yw'r amcan yma'n cwrdd â chylch gwaith y Gwasanaeth, a'r farn na ellir cyfiawnhau'r arian i'r diben yma oni bai fod mwy o gyllideb yn cael ei dyfarnu. |
| 3. Y farn nad yw 'diffoddwyr tân yn weithwyr cymdeithasol' a thynnu sylw at y ffaith fod y Gwasanaeth eisoes yn meddu ar bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| 4. Ansicr pa effaith uniongyrchol sydd gan y Gwasanaeth ar benderfynyddion economaidd-gymdeithasol, ond y farn y gall casglu data ar ddigwyddiadau a fynychwyd effeithio ar ddatblygiad y polisi. |
| 5. Y farn y byddai rhai pobl yn fodlon helpu mewn ffordd arall. |
| 6. Heb eu hargyhoeddi fod pobl dan anfantais annheg oherwydd y rheswm y cyfeirir ato, ac eisiau tystiolaeth i gefnogi'r farn eu bod dan anfantais. Amau a oes y fath dystiolaeth. Tynnu sylw at y diffyg manylder mewn perthnasedd â sut y byddwn yn llwyddo i feithrin dealltwriaeth fwy manwl o amrywiaeth. |
| 7. Cefnogi'r amcan yma, a'i gysylltu ag Amcan 1 a 4. Dymuno gweld canlyniadau ar sut y mae'r cynllun hwn yn cefnogi diogelwch, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y bobl hyn a gwella eu bywydau a'u cymunedau. |
| 8. Yn falch gweld fod yr Awdurdod yn cyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb Sengl yn y cynllun gwella. Atgoffa y dylai'r cynllun gynnwys pobl o grwpiau sydd eisoes yn cael eu diogelu wrth ddrafftio'r cynllun, a chynnwys cynllun gweithredu manwl unwaith y caiff ei gyhoeddi. |
| 9. Y farn y gall targedu rhai grwpiau lleiafrifol rhoi rhai o'r grwpiau mwyafrifol dan anfantais dan rhai amgylchiadau - megis recriwtio. |
| 10. Yn Falch o weld ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu Cynllun Gydraddoldeb Sengl, ac annog yr Awdurdod i sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth gydradd i anghenion pob grŵp, yn benodol pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Awgrymu ffyrdd o gynyddu cysylltiad (e.e. mynychu digwyddiadau ymgynghori Stonewall Cymru). Annog hyfforddi gweithwyr mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. |

| |
|---|
| Cwestiwn 8a: Ydych chi’n cytuno gydag Amcan Gwella 7 - rheoli parhad busnes? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 6 |

| |
|---|
| Cwestiwn 8b: ydych chi’n cytuno gyda’n camau arfaethedig ar gyfer cyflawni Amcan 7? |

| | |
|---|---|
| Ydw | 15 |
| Nac ydw | 0 |
| Heb ateb | 7 |

| Sylwadau ychwanegol |
|---|
| 1. Y farn nad oes digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus. |
| 2. Y farn na ddarparwyd digon o wybodaeth ar sut y byddwn yn cyflawni’r amcan, ac awgrymu y dylid cyhoeddi’r rhain ar y wefan. |
| 3. Cefnogi’r amcan, ei ystyried yn weithgaredd craidd lle caiff cynlluniau eu hadolygu’n drefnus ac yn gyson fel bod sganio amgylcheddol yn cael ei gyflawni i leihau’r peryglon i’r Gwasanaeth ac felly sicrhau ‘busnes fel arfer’. |
| 4. Y farn fod parhad busnes yn gwbl ddibynnol, neu’n bron a bod yn gwbl ddibynnol, ar dechnoleg gwybodaeth, a thynnu sylw at y faith nad yw staff yr adran dechnoleg Gwybodaeth ar gael 24/7. |
| 5. Ein hannog i sicrhau na chaiff y gyllideb cydraddoldeb ei lleihau oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, gan y caiff hyn effaith anghyson ar adrannau lleiafrifol penodol ein cymunedau. |

| Sylwadau eraill a wnaed |
|---|
| 1. Herio'r ffordd sylfaenol y mae'r Awdurdod ymdrin â'r cynllun ac awgrymu ei fod wedi ei ysgrifennu mewn modd hunanfoddhaol. Dymuno y byddai'r Awdurdod wedi gofyn mwy o gwestiynau treiddgar i'r cyhoedd megis a yw'r gwasanaeth yn effeithiol yn eu cymunedau lleol hwy, beth arall all y Gwasanaeth ei wneud i helpu'r gymuned leol drwy addysg ac ymwybyddiaeth, a yw lefel y gwasanaeth a ddarperir yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel, hyd yn oes yn ystod misoedd yr haf pan fo'r boblogaeth yn tyfu. A oes gan bobl bryderon ynghylch adeiladau mawr, fflatiau, lletyai gwely a brecwast, hosteli, gwestai yn eu hardal hwy? |
| 2. Y farn fod mwy a mwy o'r gyllideb yn cael ei gwario ar staff cefnogol, ac awgrymu y dylid cyhoeddi nifer y bobl a gyflogir ymhob categori staff. . |
| 3. Awgrymu y dylid cyhoeddi manylion gorsafoedd nad ydynt ar gael oherwydd bod nifer y criw yn annigonol, ynghyd â manylion faint o amser a gymer i injan dân fynychu digwyddiad yn yr ardal honno o orsaf gyfagos, er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau recriwtio. |
| 4. Dymuno cael ymgynghoriad i fynd i'r afael â phryderon y cymunedau lleol, a 'gofyn cwestiynau fydd weithiau'n brifo' fel y gall y Gwasanaeth symud yn ei flaen. |
| 5. Ein hannog i gynyddu nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, os bydd y gyllideb yn caniatáu hyn. |
| 6. Ein hannog i weithio'n agos gyda sefydliadau eraill. |
| 7. Ein hannog i fonitro gwelliannau yn barhaus. |
| 8. Ein hannog i barhau â'r negeseuon atalion. |
| 9. Dymuno gweld yr Awdurdod yn annog y cyngor a'r Heddlu i gynnwys pobl ifanc leol wrth ddarparu hyfforddiant diogelwch tân. |
| 10. Cwyn nad oedd wedi derbyn copi o'r ddogfen ymgynghorol hyd ganol Awst. Y farn fod y ddogfen ar ei gorau yn wael ac ar ei gwaethaf wedi ei chynllunio i gelu'r ffaith nad yw'r Gwasanaeth mewn 'dwylo diogel'. Y farn y dylai fod rhywbeth mwy agored, gonest a phroffesiynol fod wedi ei chyhoeddi ac y dylai'r Gwasanaeth a'r Awdurdod asesu eu gallu hwy i reoli'n effeithiol. |
| 11. Y farn fod y saith amcan dan ystyriaeth yn adlewyrchu ffocws yr Awdurdod ar helpu i wella diogelwch a chynaladwyedd ein cymunedau a diogelu darpariaeth yr Awdurdod i ddarparu'r gwasanaeth. Dymuno cydweithio gyda'r Awdurdod, a dymuno pob llwyddiant i gyflawni'r amcanion hyn. |
| 12. Cymeradwyo'r Awdurdod ar eglurder a gosodiad y ddogfen, ond nodi y byddai mwy o fanylder mewn rhai mannau yn ei gwella ac yn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall beth yn union yw amcanion terfynol yr Awdurdod. |
| 13. Gobeithio y bydd yr arian yn parhau i fod ar gael fel y gall yr Awdurdod 'barhau â'r gwaith da'. |
| 14. Y farn fod yr Awdurdod yn un o'r goreuon ym Mhrydain, ei bod ar flaenau eu traed ac yn uniaethu â'i chymunedau. Cred fod yr awdurdod yn gadarn ac yn barod i symud ymlaen a chyflawni'r amcanion hyn. |